OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1011

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

## RHAN 2

### Cyfarwyddydau awdurdodau lleol mewn perthynas â mangreoedd, digwyddiadau a mannau cyhoeddus

### PENNOD 1

### Rhoi a dirymu cyfarwyddydau

**Cyfarwyddydau mannau cyhoeddus**

**7.**—(1) Caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd man cyhoeddus mewn cysylltiad ag unrhyw fan cyhoeddus yn ardal yr awdurdod.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, ystyr "man cyhoeddus" yw man yn yr awyr agored y mae gan y cyhoedd fynediad iddo neu y caniateir i'r cyhoedd gael mynediad iddo, pa un ai drwy dalu neu fel arall, gan gynnwys—

(a) tir sy'n ardd gyhoeddus neu a ddefnyddir at ddiben hamdden gan aelodau'r cyhoedd;

(b) tir sy'n "cefn gwlad agored" fel y diffinnir "open country" yn adran 59(2) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(**1**), fel y'i darllenir gydag adran 16 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968(**2**);

(c) unrhyw briffordd y mae gan y cyhoedd fynediad iddi.

(3) Ond nid yw man cyhoeddus yn cynnwys—

(a) "tir mynediad" o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 14(7)(c);

(b) "llwybr cyhoeddus" o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 14(7)(b).

(4) Caiff cyfarwyddyd man cyhoeddus osod gwaharddiadau, gofynion neu gyfyngiadau mewn perthynas â mynediad i'r man cyhoeddus (gan gynnwys, yn benodol, gwahardd mynediad ar adegau penodedig).

(5) Rhaid i gyfarwyddyd man cyhoeddus ddisgrifio'r man cyhoeddus yn ddigon manwl er mwyn gallu canfod ei ffiniau.

(6) Pan fo awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd man cyhoeddus rhaid iddo gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol er mwyn—

(a) atal neu gyfyngu mynediad y cyhoedd i'r man cyhoeddus y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef yn unol â'r cyfarwyddyd (gan gynnwys codi a chynnal hysbysiadau mewn mannau amlwg sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd am y cyfarwyddyd);

(**1**) 1949 p. 97.
(**2**) 1968 p. 41. Mae adran 16 wedi ei diwygio gan adran 111 o Ddeddf Trafnidiaeth 1968 (p. 73), Atodlen 27 i Ddeddf Dŵr 1989 (p. 15) ac O.S. 2012/1659. Mae diwygiadau eraill i adran 16 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) rhoi rhybudd ymlaen llaw o’r cyfarwyddyd i bersonau sy’n cynnal busnes o fangre o fewn y man cyhoeddus;

(c) sicrhau y dygir y cyfarwyddyd i sylw unrhyw berson sy’n berchen ar unrhyw fangre yn y man cyhoeddus, sy’n meddiannu unrhyw fangre ynddo neu sy’n gyfrifol am unrhyw fangre ynddo.

(7) Rhaid i unrhyw berson, ac eithrio awdurdod lleol, sy’n berchen ar fangre mewn man cyhoeddus y mae cyfarwyddyd man cyhoeddus yn ymwneud ag ef, sy’n meddiannu mangre o’r fath neu sy’n gyfrifol am fangre o’r fath gymryd unrhyw gamau sy’n rhesymol ymarferol er mwyn atal neu gyfyngu mynediad y cyhoedd i’r fangre yn unol â’r cyfarwyddyd.

(8) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, fynd i fan cyhoeddus y mae cyfarwyddyd man cyhoeddus yn ymwneud ag ef neu aros yn y man cyhoeddus hwnnw yn groes i waharddiad, gofyniad neu gyfyngiad a osodir gan y cyfarwyddyd.

(9) Ni chaiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd man cyhoeddus mewn cysylltiad â man cyhoeddus sy’n cynnwys eiddo y mae adran 73 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**3**) (eiddo’r Goron) yn gymwys iddo.

(10) Ond caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd man cyhoeddus mewn cysylltiad â’r man hwnnw os yw’r awdurdod wedi ymrwymo i gytundeb o dan is-adran (2) o adran 73 â’r awdurdod priodol (o fewn yr ystyr a roddir i “appropriate authority” gan yr adran honno) fod—

(a) adran 45C o’r Ddeddf honno, a

(b) y Rheoliadau hyn,

yn gymwys i’r eiddo (yn ddarostyngedig i unrhyw delerau a gynhwysir yn y cytundeb).

(**3**) Mae adran 73 wedi ei diwygio gan Atodlen 11 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14).